Atodiad i Ddogfen Fframwaith 2019 – 2024

Cymwysterau Cymru a Llywodraeth Cymru

Dogfen Fframwaith Gyfredol t11
Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol Llywodraeth Cymru

Pwyntiau ychwanegol i'w hychwanegu at baragraff 41, tudalen 12

Mae gan SCY gyfrifoldeb i gefnogi'r PSC er mwyn sicrhau bod:
Yr amodau sydd ynghlwm wrth yr adnoddau a'r cymorth grant a ddyfarnwyd yn cydymffurfio â thelerau'r Gyllideb a bod trefniadau yn eu lle i fonitro cydymffurfiad â'r amodau hynny gan Gymwysterau Cymru.

Rhaid i'r SCY sicrhau bod trefniadau goruchwylio priodol ar waith.

Dogfen Fframwaith Gyfredol t12

Tîm Noddi Cymwysterau Cymru

Diwygiad i baragraff 47, tudalen 12:

47. Y Tîm Noddi fydd y prif bwynt cyswllt yn Llywodraeth Cymru o swyddogion sy'n cynnal rhaglen adolygu gyfnodol o Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Os nad yw'r Tîm Noddi ar gael, bydd unrhyw gyswllt gyda'r Uned Cyrff Cyhoeddus.

Dogfen Fframwaith t15-17

Bwrdd Cymwysterau Cymru

Pwynt ychwanegol a ychwanegwyd at baragraff 64, tudalen 17

Mae'r Bwrdd hefyd yn gyfrifol am:

- enwebu aelod o'r Bwrdd i fod â chyfrifoldeb dros oruchwylio dull y sefydliad o reoli asedau a risgiau gwybodaeth yn unol ag arfer da a sicrhau bod risgiau gwybodaeth sy'n effeithio ar amcanion busnes yn cael eu hamlygu i'r Bwrdd ac yn cael sylw;
- cadw at egwyddorion y Fframwaith Polisi Diogelwch fel sy'n briodol
- trefnu bod Gwiriad Iechyd Diogelwch Adrannol Swyddfa'r Cabinet yn cael ei ddychwelyd yn flynyddol i SIRO Llywodraeth Cymru;
- sicrhau ardystiad annibynnol o drefniadau diogelwch.

Dogfen Fframwaith t17-19
Cadeirydd Bwrdd Cymwysterau Cymru

Pwynt newydd i'w ychwanegu at baragraff 73, tudalen 19

Presenoldeb Llywodraeth Cymru yng Nghyfarfodydd y Bwrdd

Ceidw Gweinidogion Cymru yr hawl i'w swyddogion fynychu cyfarfodydd Bwrdd Cymwysterau Cymru mewn rôl ymgynghorol a/neu fel arsylwr. Gall y Bwrdd hefyd eu

gwahodd i ddod i roi cyngor neu wybodaeth benodol. (Gweler cytundeb wedi'i lofnodi 2020 rhwng Cymwysterau Cymru a Llywodraeth Cymru).

Rhaid i Gymwysterau Cymru ddarparu agendâu a phapurau ymlaen llaw i'w timau partner ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd er mwyn caniatáu iddo ystyried a yw swyddogion yn dymuno mynychu a chyfrannu at drafodaethau. Dylid darparu papurau i'r tîm partneriaeth ar yr un pryd ag y cânt eu darparu i aelodau'r Bwrdd. Dylai Cymwysterau Cymru hefyd dynnu sylw'r tîm partneriaeth at unrhyw faterion newydd, dadleuol, anodd neu y gall fod iddynt sgil-effeithiau y dylid mynd i'r afael â hwy yng nghyfarfod y Bwrdd.

Er mwyn osgoi amheuaeth, ni fydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn chwarae unrhyw ran ym mhroses benderfynu unrhyw Fwrdd. Gellir datblygu cytundeb ffurfiol sy'n manylu ar rôl swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n mynychu cyfarfodydd y Bwrdd yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

Dogfen Fframwaith t.23

Cynllunio Cyllideb

Pwyntiau newydd i'w hychwanegu fel paragraffau 90 a 91, tudalen 23

Lle bo modd, bydd y Gweinidog hefyd yn darparu cyllidebau dangosol ar gyfer y blynyddoedd dilynol i lywio cynllunio cyllideb. Fodd bynnag, gall manylion cyllidebau blynyddoedd dangosol leihau neu gynyddu yn unol â blaenoriaethau'r Llywodraeth, newidiadau i bortffolios gweinidogol, amrywiadau yn y gyllideb a/phryderon ynghylch effeithlonrwydd a/neu effeithiolrwydd Cymwysterau Cymru. Efallai y bydd yn ofynnol i Gymwysterau Cymru fodelu gwahanol opsiynau ar gyfer gweithgaredd yn dibynnu ar y cyllid sydd ar gael.

Wrth bennu cyllidebau adnoddau a chyfalaf a gofynion cymorth grant, rhoddir ystyriaeth i lefelau'r cronfeydd wrth gefn (os oes rhai) sydd gan y corff a'r incwm a ddisgwylir o ffynonellau eraill, gan nodi y cytunwyd y gall Cymwysterau Cymru gadw uchafswm incwm o 1% o gyfanswm y cymorth grant heb effeithio ar ei ddyraniad grant. Cytunwyd hefyd y bydd unrhyw effaith yn ystod y flwyddyn o alinio â dyfarniad cyflog Llywodraeth Cymru yn cael ei hadolygu.

Atodiadau

Atodiad newydd i'w ychwanegu

Atodiad A

Dirprwyaethau

Trefniadau Galw i Mewn ar gyfer Cyrff Cyhoeddus - Trefniadau Cymeradwyo, Hysbysu Ymlaen Llaw a Hysbysu.

1. Ar gyfer 2019/20 rydym wedi cytuno â threfniadau pontio y Prif Weinidog i roi sicrwydd iddo ef a'r Ysgrifennydd Parhaol nad yw dileu'r weithdrefn galw i mewn gyda chyrff hyd braich yn peri unrhyw risg i Lywodraeth Cymru, nac i gyflwyno Rhaglen y Llywodraeth yn effeithiol. Trefniadau dros dro yw'r rhain ar gyfer darparu data llinell sylfaen i Lywodraeth Cymru fel y gall asesu nifer y materion y mae'r

cyfrifoldeb amdanynt yn cael ei drosglwyddo, a chadw golwg ar sut mae pob corff yn gweithredu mewn perthynas â'r trefniadau newydd.

2. Bwriad y trefniadau pontio yw rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru sut mae'r broses newydd yn gweithio'n ymarferol, yn hytrach na pharhau â mecanwaith sy'n golygu bod yn rhaid cael cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru.

3. Rydym wedi cytuno â'r Prif Weinidog y byddwn, o 2020 ymlaen, yn rhoi trefniadau ***Cymeradwyo, Hysbysu Ymlaen Llaw a Hysbysu*** ar waith ar gyfer penderfyniadau a oedd gynt yn destun trefniadau galw i mewn.

4. Bydd Swyddogion Cyfrifyddu mewn Cyrff Cyhoeddus yn atebol am y penderfyniadau sydd angen eu hysbysu. Gall Llywodraeth Cymru roi cyngor ar faterion sydd angen eu hysbysu ymlaen llaw, fel y nodir yn Nhabl B, ond yn y pen draw, y Prif Weithredwr fydd yn gwneud y penderfyniad. Os bydd y Corff yn penderfynu diystyru cyngor Llywodraeth Cymru, bydd y tîm partneriaeth yn argymell i'r Gweinidog y dylid cynnal trafodaeth gyda'r Cadeirydd, gyda'r Gweinidog yn cadw'r hawl iawn i wrthod penderfyniad sy'n syrthio i'r categori hwn lle mae'r Corff wedi dewis anwybyddu cyngor Llywodraeth Cymru heb unrhyw reswm y gellir ei gyfiawnhau.

5. Yr eithriadau fydd y penderfyniadau a geir yn Nhabl A lle bydd Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am y penderfyniad.

Tabl A Cymeradwyaethau

Penderfyniad	**Cymeradwyaeth**
Penodi Prif Weithredwr	Bwrdd Cymwysterau Cymru
Tymor Cynllun Busnes y Llywodraeth	Bwrdd Cymwysterau Cymru
Cymeradwyaethau ariannol eraill	**Cyfarwyddwr Cyllid Llywodraeth Cymru**
a) Cario arian parod ymlaen o fewn y flwyddyn sy'n fwy na 4% o gyfanswm y Cymorth Grant/Arian Parod b) Cario arian parod ymlaen ar ddiwedd y flwyddyn sy'n fwy na 2% o gyfanswm y Cymorth Grant/Arian Parod c) Sefydlu is-gwmnïau/cyd-fentrau newydd d) Unrhyw fenthyca, gwarantau, indemniadau neu fuddsoddiad sy'n gysylltiedig ag arian cyhoeddus	Cyfarwyddwr Cyllid Llywodraeth Cymru

e) Cadw incwm uwchlaw'r hyn a nodir yn y llythyr cyllid.	
Unrhyw benderfyniad a nodir mewn deddfwriaeth fel un sydd angen caniatâd Gweinidogion Cymru e.e. Mae Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 yn gofyn am gymeradwyaeth y Gweinidog i gynllun corfforaethol blynyddol	Y Gweinidog â chyfrifoldeb polisi, yn achos CC, y Gweinidog Addysg fyddai hwn fel rheol
Trefniadau diswyddo yn seiliedig ar Gynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil (cyrff sydd â Phensiwn y Gwasanaeth Sifil)	Pennaeth Tâl a Chydnabyddiaeth Ariannol a fydd yn ceisio cyngor gan y Gweinidog fel y bo'n briodol.

Tabl B Trefniadau Hysbysu Ymlaen Llaw

Dylai Swyddogion Cyfrifyddu/ Prif Swyddogion Gweithredol hysbysu eu tîm partneriaeth am unrhyw benderfyniadau arfaethedig sy'n dod o dan y categorïau canlynol wrth iddynt godi, er mwyn caniatáu i Lywodraeth Cymru ddarparu cyngor priodol. Cyn belled ag y bo modd, bydd timau partneriaeth yn anelu i ymateb o fewn pythefnos. Pe bai'r Corff yn penderfynu anwybyddu cyngor Llywodraeth Cymru, gall y tîm partneriaeth drosglwyddo'r mater i'r Gweinidog, sy'n cadw'r hawl i wrthod derbyn penderfyniad a wnaed gan gorff Cyhoeddus nad oes modd ei gyfiawnhau, yn dilyn trafodaeth.

Dylai'r penderfyniadau hyn hefyd fod yn rhan o drafodaeth archwilio diwedd chwarter mewn cyfarfodydd monitro chwarterol.

Penderfyniad	Camau Hysbysu Ymlaen Llaw	Cyngor Pellach
Cynigion newydd, dadleuol, anodd neu y gall fod iddynt sgil-effeithiau yn unol â Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.	Tîm partneriaeth, ar y cyd â'r timau polisi priodol, i baratoi cyngor i'w drafod gyda'r Uned Cyrff Cyhoeddus, a fydd yn ceisio cyngor ysgrifenedig y Ganolfan Rhagoriaeth mewn Llywodraethu Corfforaethol ac unrhyw Gorff arall sydd ag arbenigedd yn y mater.	Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol a'r Gweinidog fel y bo'n briodol
Unrhyw gamau gweithredu a ystyrir gan y Bwrdd a fyddai'n mynd yn groes i egwyddorion rheoleidd-dra, priodoldeb, gweinyddiaeth ddarbodus ac economaidd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ac y mae'r Prif Swyddog Gweithredol wedi cynghori yn eu herbyn.	Tîm partneriaeth i baratoi cyngor i'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol	Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol
Newid polisi neu arfer sydd â goblygiadau ariannol eang	Tîm partneriaeth i baratoi cyngor i'r Pennaeth Rheoli Cyllidebol a gopïwyd i'r Uned Cyrff Cyhoeddus	Y Gweinidog, fel y bo'n briodol

Cydnabyddiaeth ariannol staff, a thelerau ac amodau	Tîm partneriaeth i gyflwyno cynigion i'r Pennaeth Tâl a Chydnabyddiaeth Ariannol, yr Uned Cyrff Cyhoeddus ar: • newidiadau y tu allan i egwyddorion cyflog sector cyhoeddus LlC; • newidiadau dylunio sefydliadol sy'n debygol o arwain at ddiswyddiadau	Y Gweinidog, fel y bo'n briodol
Unrhyw beth a allai effeithio'n **sylweddol** ar lefel yr adnoddau sydd eu hangen yn y dyfodol, e.e. pwysau cyllidebol neu danwariant posib.	Tîm partneriaeth i ystyried	Cyfarwyddwr Cyllid Llywodraeth Cymru, fel y bo'n briodol

Trefniadau Hysbysu Eraill

Yn ystod y cyfnod pontio (sydd bellach drosodd), dylai Prif Swyddogion Gweithredol hysbysu timau partneriaeth yn eu cyfarfodydd monitro chwarterol am unrhyw benderfyniadau eraill y maent wedi'u gwneud neu'n debygol o'u gwneud yn y chwarter nesaf a fyddai ynghynt wedi cael eu cyfeirio at Lywodraeth Cymru.

Llofnodwyd.....

[Joanna Valentine]

Date..... 23/03/20

Swyddog Llywodraeth Cymru

Llofnodwyd.....

Date.....J.3..:.0.3..1. lD

[Steve Davies]

dros ac ar ran Gweinidogion Cymru

Signed  Date 18/03/20

Date Date 18/03/20

David Jones, Cadeirydd

dros ac ar ran Cymwysterau Cymru

Cylch Gorchwyl ar gyfer Swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n Mynychu Cyfarfodydd Bwrdd Cyrff Cyhoeddus

Partïoedd

(1)	[•] (swyddog Llywodraeth Cymru "**y swyddog**")
(2)	[•] Gweinidogion Cymru, Adeiladau'r Goron, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ("**Gweinidogion Cymru**")
(3)	y "**Bwrdd**"

Cefndir

(A) Mae'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth hwn yn nodi'r cylch gorchwyl ar gyfer y swyddog sy'n mynychu cyfarfod Bwrdd. Ni fwriedir iddo fod yn rhwymol mewn cyfraith.

(B) Mae'r swyddog yn uwch swyddog Llywodraeth Cymru sy'n cynrychioli Gweinidogion Cymru mewn cyfarfod Bwrdd mewn rôl ymgynghorol a/neu fel arsylwr.

(C) Mae'r partïoedd yn cydnabod ac yn cytuno y gall y swyddog adrodd yn ôl i Weinidogion Cymru ar drafodion y Bwrdd.

Presenoldeb

- Rhaid i'r swyddog gael yr un rhybudd o gyfarfodydd ag aelodau'r Bwrdd. Bydd gan y swyddog hawl i dderbyn agendâu a phapurau'r Bwrdd sy'n gysylltiedig ag eitemau ar yr agenda yn yr un modd ac ar yr un pryd ag aelodau'r Bwrdd. Dylid tynnu sylw'r swyddog at unrhyw faterion newydd, dadleuol, anodd neu y gall fod iddynt sgil-effeithiau i fynd i'r afael â nhw mewn cyfarfod Bwrdd.

- Wrth ystyried yr agenda a'r papurau, bydd y swyddog yn penderfynu a yw'n dymuno mynychu'r cyfarfod.

- Gall y swyddog fynychu a siarad yng nghyfarfodydd y Bwrdd, a bydd eu presenoldeb yn cael ei gofnodi'n ffurfiol yn y cofnodion.

- Os caiff ei wahodd i wneud hynny gan y Cadeirydd, gall y swyddog ddarparu cyngor yn seiliedig ar bolisi Llywodraeth Cymru ond ni fydd yn darparu unrhyw gyfarwyddiadau nac argymhellion. Dylai'r Bwrdd ystyried effaith unrhyw gyngor a roddir yn llawn a gwneud penderfyniad annibynnol ar y mater perthnasol. Ni fydd y swyddog yn darparu cyngor fel mater o drefn, a bydd unrhyw gyngor a roddir trwy awgrym yn unig, y gellir ei ystyried ac y gall y Bwrdd ei fabwysiadu yn ôl ei ddisgresiwn.

- Bydd y swyddog yn cynrychioli budd Gweinidogion Cymru yn unig ac ni fydd yn cyfarwyddo na ni ddylid ystyried ei fod yn cyfarwyddo'r Bwrdd. Bydd holl benderfyniadau a rheolaeth y cwmni o ddydd i ddydd yn aros gyda'r Bwrdd.

- Ni fydd y swyddog yn cymeradwyo, nac yn nodi mewn unrhyw ffordd arall gymeradwyaeth i'r penderfyniadau a wneir gan y Bwrdd.

- Ni fydd y swyddog yn pleidleisio ar benderfyniadau'r Bwrdd nac yn ceisio dylanwadu'n uniongyrchol ar unrhyw benderfyniadau.

Adrodd

- Rhaid i'r swyddog ddarllen holl bapurau'r Bwrdd ac adrodd i Weinidogion Cymru am unrhyw faterion sy'n codi yn y papurau hyn sy'n peri pryder, neu dynnu sylw Gweinidogion Cymru at risgiau.

- Bydd y swyddog yn adrodd yn ôl i Weinidogion Cymru os yw'r Bwrdd, yn eu barn hwy, yn gweithredu'n ddi-hid neu mewn modd y tu allan i'w gylch gwaith a'i bwerau, neu os oes tystiolaeth o dwyll, camweinyddu ariannol neu gamreoli ariannol. Bydd yn ofynnol i'r swyddog ddod ag unrhyw faterion eraill sy'n peri pryder i sylw Gweinidogion Cymru ar unwaith.

Arwain

- Rhaid i'r swyddog gynnal Cod y Gwasanaeth Sifil a dangos gwerthoedd craidd y gwasanaeth sifil.

- Os daw'r swyddog yn ymwybodol o wrthdaro buddiannau, neu ymddangosiad un, rhaid iddo ddatgan y gwrthdaro, ar y cyfle cyntaf i Gadeirydd y Bwrdd a Gweinidogion Cymru. Bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu a yw hyn yn gwahardd y swyddog rhag mynychu cyfarfodydd y Bwrdd.

- Rhaid i'r swyddog gynnal cyfrinachedd gwybodaeth nad yw'n gyhoeddus am y cwmni, neu ei weithgareddau neu ei weithrediadau, y mae ganddynt fynediad ati yn rhinwedd mynychu cyfarfodydd y Bwrdd. Gallant ddatgelu'r wybodaeth hon o fewn Llywodraeth Cymru, gan gynnwys (heb gyfyngiad) i gyflogeion eraill Llywodraeth Cymru sydd â diddordeb yng ngwaith y cwmni ac i Fyrddau a Phwyllgorau perthnasol Llywodraeth Cymru y mae'n rhaid iddynt fod yn ymwybodol o waith y cwmni fel rhan o'u cyfrifoldebau arferol.

Mae pob parti trwy hyn yn cadarnhau ei gytundeb i'r telerau a gynhwysir yn y cylch gorchwyl hwn.

Llofnodwyd..... /JJJ;..'\t.....

[Jo Valentine] Dyddiad.....

Swyddog Llywodraeth Cymru

Llofnodwyd..Ji "

[Steve Davies] Dyddiad.....

dros ac ar ran Gweinidogion Cymru

Llofnodwyd  Dyddiad.....

David Jones, Cadeirydd

dros ac ar ran Cymwysterau Cymru